



Cyngor Cymuned Llandwrog  
Community Council

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor  
Council Minutes

15 Gorffennaf 2019 / 15 July 2019

# Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council

Cofnodion y cyfarfod o Gyngor Cymuned Llandwrog a gynhaliwyd Nos Lun, 15 Gorffennaf 2019 yn Neuadd Pentref Y Groeslon.

*Minutes of the Full Council Meeting held Monday evening, 15 July 2019 at Groeslon Village Hall.*

**Yn bresennol / Present - 9 aelod / 9 members**

Yn cynrychioli Ward y Fron – [Representing the Ward of Fron](#)  
Cyng. Gwyn Owen Jones;

Yn cynrychioli Ward Carmel – [Representing the Ward of Carmel](#)  
Cyng. Bryn Williams; Cyng. Alan Patterson

Yn cynrychioli Ward Y Groeslon – [Representing the Ward of Y Groeslon](#)  
Cyng. Alun Wyn Jones; Cyng. Gerwyn Owen; Cllr. Eddie Willcox; Cyng. David C Davies;

Yn cynrychioli Ward Llandwrog a Dinas Dinlle - [Representing the Ward of Llandwrog & Dinas Dinlle](#)  
Cyng. Clive Bayley; Cyng. Dyfed Williams

Hefyd yn bresennol / [Also in Attendance-](#)

David Roberts, Rheolwr Gweinyddol a Chyllid y Cyngor / [Council's Administrative & Finance Manager](#)

Ann Llwyd Williams , Cyfieithydd / [Translator](#)

Llyr Jones. Uwch Reolwr Adran Economi a Chymuned Cyngor Gwynedd / Senior Manager Economy & Community Department of Gwynedd Council

---

19-07-01 **1 Croeso'r Cadeirydd / [Chairman's Welcome](#)**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Alun Wyn Jones. Croesawodd Ann Llwyd Williams odd yn cyfieithu'r drafodaeth. Estynnodd croeso i Llŷr Jones, Uwch Reolwr Adran Economi a Chymuned Cyngor Gwynedd yn y cyfarfod i drafod eitem 4 yn unig

[The meeting was opened by the Chairman, Cllr. Alun Wyn Jones.](#)  
[He proceeded on to the evening's business](#)

---

19-07-02 **2 Ymddiheuriadau am Absenoldeb / [Apologies for Absences](#)**

Cyng. Hywel J Owen; Cyng. Helen Hughes; Cyng. Robert Jones

---

19-07-03 **3 Datgan Buddiant Personol Neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar y Unrhyw Eitem ar y Rhaglen - Adran 51 Deddf Llywodraeth Leol 2000 - [To Receive disclosures of Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda - Section 51 Local Government Act 2000](#)**

Cyng Alun Wyn Jones – eitem 16 – Taliadau. Yn Swyddog gyda Cyngor Gwynedd gyda cyfrifoldeb am y toileadau cyhoeddus. Ni wnaeth gymeryd rhan yn y drafodaeth.

David Roberts, Rheolwr - eitem 4 - yn gyfrifydd i'r Adran Economi a Chymuned. Arhosodd i gymeryd cofnodion o'r drafodaeth

---

19-07-04 **4 Codi Ffi am Barcio ar Draeth Dinas Dinlle / Car Parking Fee at Dians Dinlle Beach**

Croesawyd Llŷr Jones, Uwch Reolwr Adran Economi a Chymuned Cyngor Gwynedd i'r cyfarfod i drafod eitem 4 yn unig sef Codi Ffi am Barcio ar Draeth Dinas Dinlle.

Eglurodd y Cadeirydd I'r aelodau fod Llŷr Jones yn Uwch Reolwr Cyngor Gwynedd gyda chyfrifoldeb am Wasanaeth Morwrol a Pharciau Gwledig Y Sir.

Cychwynnodd Cadeirydd ar y drafodaeth gyda y cyd-destun - .

Siom fod Cyngor Gwynedd (CG) yn bwriadu codi ffi am barcio ar y traeth Cyngor Cymuned Llandwrog wedi penderfynu gwrthwynebu'r syniad

Yn diolch i'r Uwch Reolwr am ei ohebiaeth yn ymateb i gwestiynau'r Cyngor Gwynedd Council

Yn gofyn i LIJ am ddiweddariad.

LIJ-

Yn diolch am y gwahoddiad.

Yn dallt y pryderon

Heno yn gyfle i gychwyn trafodaethau gyda'r gymuned

Am rannu'r drafodaeth i ddau ddarn 1) y Cyd-destun a 2) Lle'r ydym rŵan

### **1 Cyd-destun**

Pwysau ar gyllideb CG -bwllch ariannol parhaol sylweddol yn 2019-20

Pwyslais wedi ei roi ar arbedion effeithlonrwydd yn hytrach na thoriadau - hynny yw gwell cadw gwasanaeth trwy weithio mewn dull gwahanol na thorri gwasanaeth yn gyfan gwbl.

Darganfod arbedion yn fwy heriol ar ôl 10 mlynedd o doriadau cyson i'r gyllideb

Y bwriad oedd lleihau effaith unrhyw arbedon ar drigolion Gwynedd.

Toriad wedi bod yng nghyllideb y gwasanaeth morwrol ee Wardeiniaid Traethau ym Morfa Nefyn a hyn wedi codi pryderon iechyd a diogelwch

Codi incwm yn well na thorri cyllidebau/gwasanaethau

Meysydd parcio mewn sawl lleoliad yn y Sir ee. Dinas Dinlle yw'r unig draeth sydd gyda baner las lle mae'r parcio am ddim

Llythyr wedi ei anfon I Gynghorau Cymuned yn gofyn am sylwadau cyn gweithredu – gwael iawn oed yr ymateb

### **2 Lle'r ydym rŵan?**

Arbedion wedi ei adnabod ers dros flwyddyn - angen gweithredu rŵan a hyn yn her i fod yn weithdrefnau cadarn

Gwaith wedi cychwyn ac wedi ei rannu i dri category

1 - Manylion y safle

2 - Y strwythur ffioedd

3 - Gorchymyn parcio

#### **1 Manylion y safle**

Angen archwiliad o'r safle

Angen manylion technegol

Angen ymestyn y briffordd efallai?

Cyngor Gwynedd sydd berchen y tir o'r tro i mewn Dinas Dinlle (gyferbyn y cae chwarae) at y tro yn y lon - tir Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ydi hwn.

CG wedi cysylltu gyda CNC - ofnir y bydd cerbydau yn symud o safe parcio i dir CNC i osgoi ffioedd

Dipyn o waith ymarferol i'w gyflawni

Amcangyfrif o'r costau sefydlu maes parcio yn Ddinas Dinlle yw £30,000

#### **2 - Y strwythur ffioedd**

Mater cymhleth

Strwythur ffioedd y parcio wedi ei anelu at drefydd - dim band i'r math hwn o barcio  
Cwestiwn yn codi - oes angen cysoni ffioedd y Cyngor Sir a chael un strwythur ffioedd?  
Nodweddion gwahanol i bob maes parcio  
Angen ystyried b beth fydd lefel y ffi? Angen ystyried cyfyngu amser i godi ffi ee 10 y bore at 4 y prynhawn.  
Fel rhan o'r gwaith bydd angen ystyried cost i drigolion Gwynedd. Angen ystyried consesiwn i bobol leol.  
Grŵp Tasg wedi ei sefydlu i edrych mewn i'r mater - adrodd nôl erbyn Medi / Hydref 2019  
Cynllun mewn lle i gynnig 10% o'r ffioedd I Gynghorau Cymuned., hynny yw byddai'r 10% yn ffi ychwanegol i'r cwsmer. Hwn yn fater I 'r Cyngor Cymuned ei ystyried.

### **3 - Gorchymyn Parcio**

Yn broses ffurfiol

Gofyn ar yr awdurdod i ystyried unrhyw wrthwynebiadau a sylwadau

Grŵp Tasg yn edrych ar y mater a gobeithio cwblhau erbyn Gwanwyn 2012

### **Sylwadau Aelodau**

#### **Cynghorydd Dyfed Williams (DW)**

Siom a sioc am y syniad i godi ffi ar y traeth. Methu deall y cynnig. Dim buddsoddiad yn y traeth gan CG ond eto disgwyl i'r traeth gorfod cyfrannu at ddiffyg cyllid y Cyngor!

Synnu fod Adran Economi'r Sir yn creu effaith negyddol ar Dinas Dinlle I'r nifer fechan o'r masnachwyr sydd yn y pentref. Llai o bobol yn ymweld safleoedd sydd yn codi ffi parcio.

Hwn yn ardal di freintiedig. Y traeth yn le i bobol fyndi ymlacio - pobol dan straen ac mae mynd i'r traeth yn ymlacio pobol. CG nŵan yn rhoi rhwystr i bobol ymlacio a cherdded eu cwn.

Yn herio'r swm o £30,000 ar gyfer y datblygiad - ddim am dderbyn unrhyw ffigwr sydd wedi ei ddyfeisio "on a whim". Angen costau cadarn.

Cynnig 10% i'r Cyngor yn sarhad – yn gryf yn erbyn y syniad ac i CG beidio meddwl fod pob Cyngor Cymuned am blygu i dderbyn yr arian.

Dim pŵer ar y safle , angen lledu'r lon, amgylchedd brwnt, gwaith cynnal a chadw sylweddol, dim golwg o'r heddlu ac eto mae CG yn bwriadu gwario £30,000 ar y peiriannau?

Dim ffioedd parcio yn Coed Helen, na Foryd - pam ddim ystyried codi ffioedd yn fan hyn?

Pam targedu Dinas Dinlle?

Pam ddim datblygu cynlluniau i ennill incwm trwy gyflogi wardeiniaid i lansio cychod yn Dinas Dinlle?

Yn cwestiynu os ydi'r tafluniad incwm yn mynd i ddwyn ffrwyth.

DCD a BW yn cefnogi sylwadau DW

Llŷr Jones -

Y cynnig o 10% i Gynghorau – hwn yn gweithio mewn rhai ardaloedd

Wardeiniaid- cost y llawr uwch na'r incwm a gasglir

Roedd gwerth yr arbedion i'r Adran yn £90,000 ffioedd lansio yn cynyddu o £10 I £15

Meysydd parcio bychain eraill ee Machroes yn dod ac incwm sylweddol i mewn

DW - dim ystyriaeth wedi ei roi i lesiant trigolion

#### **Cyng. Eddie Willcox (EW)**

yn awgrymu fod y swm o £30,000 yn rhy isel o lawer "way off beam£ dywedwyd

Oes rhyddhad trethi i fusnesau dan ystyriaeth?

Bydd y peiriannau wedi rhydo oherwydd yr amgylchedd

#### **Cyng. Gerwyn Owen (GO)**

Beth fydd cost casglu'r incwm arian a goruchwylio'r maes parcio?

LIJ - ffigwr cychwynnol ydi'r £30,000. Nid oes anghenu tarmac na llinellau gwyn. Costau mwy cywir fel daw'r amser yn ei flaen. Peiriannau tebyg ar draethau ee Bermo Pwllheli - dim problem yma a phrofiad fod peiriannau yn gweithio ar yr arfordir. Gellir ystyried gorchuddio'r peiriannau yn y Gaeaf.

GO

Oes trafodaeth wedi bod gyda CNC? Bydd ymwelwyr yn parcio ar dir CNC yn siŵr o fod. CNC ddim am fuddsoddi dim i rwystro cerbydau yma gan eu bod wedi datgan i'r Cyngor hwn fod y tir wedi ei adael natur ei erydu.

### **Cyng. Clive Bayley (CB)**

Yn cynghori y dylai'r adroddiad gael ei ehangu i gynnwys y ffordd o Landwrog i Dinas Dinlle. Angen edrych ar elfen iechyd a diogelwch ar y ffordd hon. Bydd cerbydau yn siŵr o fod yn parcio ar y lon unwaith y daw'r ffioedd i rym ar achlysur o dywydd poeth.

### **Cyng. Alan Patterson (AP)**

Cyngor hwn wedi gofyn sawl tro i reoli cerbydau sydd wedi bod yn parcio dros nos ar y traeth. CH wedi gwrthod gweithredu. Hefyd yn neud yn sylw nad yw CG yn medru rheoli parcio ar Faes Caernarfon heb son am reoli parcio yn Dinas Dinlle.

LIJ

Gellir ystyried gosod camerâu ar rhai safleoedd

**Cyng. Gwyn Owen Jones (GOJ)** am ddigwydd (codi ffi am barcio) pwysig iawn fod pobol leol yn cael consesiwn

GO

Pwy di aelodau'r Grŵp Tasg?

LIJ - am gadarnhau aelodaeth trwy'r Rheolwr

**Cyng. David C Davies (DCD)** - ategu sylwadau aelodau. Yn gofyn i Llŷr

- 1) faint o arian y rhagwelir o'r maes parcio? LIJ £50,000 y flwyddyn yn cynnwys ardal Y Glyn , Llanberis.
- 2) £30k datblygu - ydi hwn yn cynnwys costau gwehyddu?
- 3) oes "feasibility study" wedi ei gyflawni o nifer y cerbydau sydd yn parcio yma? Bydd adroddiad tebyg yn cael ei gomisiynu.

DW - yn cynnig rhoi gwahoddiad yn ôl i Llŷr Jones unwaith y bydd y "feasibility study" wedi ei gyflawni. Pawb yn cytuno

Rhoddyd gair o ddiolch i Llŷr Jones gan y Cadeirydd. Diolchodd yntau am y cyfle i ddod i'r cyfarfod. Gadawodd y cyfarfod am 8.30 yr hwyr

---

19-07-05 **5 Derbyn Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol a gynhaliwyd 24 Mehefin 2019 fel Rhai Cywir / To Confirm the Minutes of the Previous Meeting held on the 24 June 2019 as a True Record**

Awdurdodwyd y Cadeirydd gan y Cyngor i arwyddo'r cofnodion fel rhai cywir.  
The Council authorised the Chairman to sign the minutes as a true record.

19-07-06 **6 Materion yn Codi o'r Cofnodion / Matters Arising from the Minutes**

19-07-07 **Ymgysylltu Gyda'r Gymuned / Consulting With The Community**

Derbyniwyd adroddiad terfynol gan Caryl Lewis o Gwmni Celyn.

***Penderfynwyd trafod cynnwys yr adroddiad, ynghyd a'r argymhellion, mewn cyfarfod arbennig i'w gynnal diwedd mis Awst***

***Resolved – to discuss its contents, and the recommendations, of the report in a Special Meeting of the council to be held at the end of August.***

19-07-08 **Giat Cae Pel droed Y Fron Y Fron Football Field Gate**

Derbyniwyd pris gan Ifan Williams o £675.00.

***Penderfynwyd derbyn pris Ifan Williams i gyfalwni'r gwaith***

***Resolved – to accept the cost as received by Ifan Williams.***

19-07-09 **Gordyfiant Cae Halen Bach, Llandwrog**

Adroddwyd fod y gwaith wedi ei gwblhau.

***Penderfynwyd – derbyn y wybodaeth.***

***Resolved – to accept the information***

19-07-10 **Llwybr 38 – Hafoty Wen , Carmel – Hawl Tramwyo / Public Right of Way**

Adroddwyd fod y llwybr yn parhau ar gau. Sawl cwyn wedi ei dderbyn gan drigolion lleol. Swyddogion Hawliau Tramwy wedi ymweld y llwybr ond heb weithredu hyd yma.

***Penderfynwyd dwyn pwysau ar yr Awdurdodau i sicrhau fod y llwybr yn cael ei agor.***

***Resolved –to press the Authorities to ensure that the footpath is re-opened.***

19-07-11 **Cyfarfod CCSQ Grwp Aleandra Meeting**

Cafwyd adroddiad ar lafar gan Cyng. Eddie Willcox o'r cyfarfod a gynhaliwyd 4 Gorffennaf 2019.

Crynhodd Dion o Barc Eryri lle roedd y gwaith wedi cyrraedd, gan nodi bod grant codi waliau ar gael i drigolion sy'n ffinio â'r comin. Ychwanegodd y byddai ardal goetir Rhosgadfan sydd wedi'i hesgeuluso yn cael ei chynnwys a'r arian grant ac y byddai'n cael ei dacluso a'i ailblannu. Gofynnwyd i'r chwarel wneud sylwadau ar y defnydd o'r ffordd gludo ger Bryn Fferam, cymerwyd camau i giatio a chloi'r holl bwyntiau mynediad. Hysbyswyd y swyddog mwynau bod traffig Bryn Fferam yn gweithredu ar benwythnosau yn groes i'w cytundeb, dywedodd y byddai'n rhoi rhybudd gorfodi i'w atal. Gofynnwyd i'r chwarel, sef perchnogion y Cwm, a fyddent yn rhoi caniatâd i'r cyngor leoli lloches bws yno yn amodol ar breswylwyr yn cytuno â'r galw. Dywedodd y chwarel pe bai'r cyngor yn darparu cynllun yn nodi eu cynnig y byddent yn rhoi ystyriaeth lawn iddo. Trafodir y mater o grwpiau a ariennir gan y gronfa yn y cyfarfod nesaf, roedd y cynrychiolwyr yn credu ei fod yn ardal rhy fawr, mae'r ardal i'r de o'r A487 yn derbyn cyllid ond nid yw'n anghyfleus mewn gweithrediadau chwarel beth bynnag.

Dion from Snowdonia Parc summarised where the work had got up to, stated walling grant available to residents bordering the common. He added that Rhosgadfan woodland area that has been neglected would be included and the grant funding and would be tidied and replanted. The quarry were asked to comment on the use of the haul road by Bryn Fferam, measures have been taken to gate and lock of all access points. The minerals officer was informed that Bryn Fferam traffic was operating at weekends contrary to their agreement, he said he would issue an enforcement notice to stop it. The quarry who are the owners of the Cwm were asked if they would give permission to the council to site a bus shelter there subject to residents agreeing demand. The quarry stated that if the council provided a plan indicating their proposal they would give it full consideration

The issue of groups funded by the fund will be discussed at the next meeting, delegates thought it was too large an area, the area south of A487 receive funding but are not inconvenienced in anyway by quarry operations.

Diolchwyd iddo am ei adroddiad

***Penderfynwyd derbyn a nodi y wybodaeth .***  
***Resolved –to accept & note the information.***

19-07-12 **7 Derbyn Cofnodion Pwyllgor Cyllid a Gynhaliwyd 3 Gorffennaf 2019 To Confirm the Minutes of the Finance Committee held on 3 July 2019 as a True Record.**

Awdurdodwyd y Cadeirydd gan y Cyngor i arwyddo'r cofnodion fel rhai cywir.

The Council authorised the Chairman to sign the minutes as a true record.

19-07-13 **8 Materion yn Codi o'r Cofnodion / Matters Arising from the Minutes**

19-07-14 **Mabwysiau Polisi a Ffurflen Gais ar Gyfer Rhoddion Ariannol i Fudiadau Gwirfoddol (Ddim yn Gwneud Elw) – To adopt a Policy and Application Form for financial Contributions to Voluntary Organisations (Not For Profit)**

***Penderfynwyd derbyn argymhellion y Pwyllgor fel a ganlyn -***

- i) Fod y Cyngor yn mabwysiadu'r Polisi Cymorth Ariannol i Fudiadau Gwirfoddol fel ei ddsbarthwyd .***
- ii) Fod y Cyngor yn cymeradwyo'r Ffurflen Gais am Gymorth Ariannol i Fudiadau Gwirfoddol fel ei ddsbarthwyd.***

***Resolved – to accept the Committee's recommendation as follows-***

- i) For the Council to adopt the Policy for Financial Contributions to Voluntary Organisations as distributed***
- ii) For the Council to approve the Application Form for Financial Contributions for Voluntary Organisations Financial Aid as distributed.***

19-07-15 **Cyllideb 2019-20 – Adolygiad Chwarter Cyntaf – 2019-20 Budget - First Quarter Review**

***Penderfynwyd derbyn argymhellion y Pwyllgor fel a ganlyn –***

- i) Fod y Cyngor yn derbyn cywirdeb y balansau fel y nodwyd isod***
- ii) Fod y Cyngor yn nodi fod yna swm £6,264.40 yn y gyllideb ar y pennawd "Datblygiadau" yn 2019/20***
- iii) Fod y Cyngor yn cadw'r tanwariannau posibl eraill o £3,684.92 yn y gyllideb gan ei fod yn gynnar yn y flwyddyn ac i adolygu'r sefyllfa yn y cyfnod monitro'r gyllideb nesaf.***
- iv) Fod y Cyngor yn derbyn mai datblygu gwefan y Cyngor yw'r flaenoriaeth gwariant eleni ac yn disgwyl am adroddiad terfynol yr ymgysylltu cyn ymrwymo gwariant pellach ar y pennawd "Datblygiadau"***

***Resolved – to accept the Committee's recommendation as follows-***



- i) That the Council accepts the balances as noted below
- ii) That the Council notes that there is a balance of £6,264.40 in the "Development" heading in the 2019-20 budget.
- iii) That the Council keeps the remaining potential underspend of £3,684.92 in the budget until the next budgetary review is held in September 2019 as it is too early in the financial year.
- iv) That the Council accepts that developing the website is the priority for this financial year and wait for the final report on the consultation with the community before committing any expenditure from the "Development" heading.

<b>.Cysoniad y Banc i 30 Mehefin 2019 / Bank Reconciliation to 30 June 2019</b>	
Balansau'r Banc i 30 Mehefin/June 2019 – Balances in the Bank	(£32,206.73)
- Llai Credydwy'r a Sicciau heb eu cyflwyno / Less Creditors & Unpresented Cheques	£10,898.48
+ Dyledwyr / Debtors	(£673.38)
<b>Is-gyfanswm - Cyfanswm yr Arian ar 30 Mehefin 2018 / Sub Total</b>	<b>(£29,378.34)</b>
+ Praesept heb gyrraedd (rhan 2) / Praesept as yet not received	(£27,500.00)
<b>Is-gyfanswm / Sub Total</b>	<b>(£56,878.34)</b>
- Gwariant ymrwymedig i 31/3/2019 / Committed Expenditure to 31 March 2019	£52,631.34
+ Incwm heb gyrraedd i 31/3/2019/ Income due to 31 March 2019	(£2,858.07)
<b>Is-gyfanswm / Sub Total</b>	<b>(£7,123.00)</b>
- Llai Cronfeydd Penodol (£5,000 AWG Cronfa Adnewyddu Offer Cae Chwarae) / Less Specific (£5,000 in reserve & £2,000 Playing Fields Renewal Fund)	(£7,000.00)
Grant CCSQ ymlaen llaw / CCSQ Grant in advance	(£123.00)
<b>Cyfanswm Gor neu (Tan) wariant y rhagwelir i 31 Mawrth 2020 / Total Overspent (under) spent expected as at 31 March 2020</b>	<b>(dim)</b>

<b>Cronfeydd y Cyngor ar 30 Mehefin 2019 / Specific Funds as at 30 June 2019</b>	
Arian Wrth Gefn - Polisi'r Cyngor / General Reserve Fund	(£5,000.00)
Cronfa Adnewyddu Offer Caeau Chwarae / Playing Fields Renewal Fund	(£2,000.00)
Grant Ymlaen Llaw - CCSQ	(£123.00)
<b>Cyfanswm y Cronfeydd / Total Specific Funds</b>	<b>(£7,123.00)</b>

19-07-16 **9 Derbyn Cofnodion Panel Rheolau Sefydlog a Gynhaliwyd 10 Gorffennaf 2019 To Confirm the Minutes of the Standing Orders Panel held on 10 July 2019 as a True Record.**

Awdurdodwyd y Cadeirydd gan y Cyngor i arwyddo'r cofnodion fel rhai cywir.

The Council authorised the Chairman to sign the minutes as a true record.

19-07-17 **10 Materion yn Codi o'r Cofnodion / Matters Arising from the Minutes**

19-07-18 **Model Brotocol Datrysiaidau Lleol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref Model Local Resolution Protocol for Town & Community Councils**

*Penderfynwyd derbyn argymhellion y Panel fel a ganlyn – Fod y Cyngor yn derbyn ac yn mabwysiadu y Model Brotocol Datrysiaid Lleol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref fel a'i derbyniwyd gan Un Llais Cymru ond yn nodi'r un addasiad i'r paragraff cyntaf*

*Resolved to accept the Panels recommendation as follows- For the Council to accept & adopt the Model Local Resolution Protocol for Town & Community councils as received by One Voice Wales and noting the one amendment in the first paragraff*



19-07-19 **Rheolau Sefydlog y Cyngor – Para 3.3.7 Council’s Standing Orders Para 3.3.7**

Ar gais y Rheolwr trafodwyd cymal 3.3.7 o'r Rheolau Sefydlog y Cyngor (a fabwysiadwyd Chwefror 2019) gan fod y cymal hwn yn wahanol i'r Model Rhoi Sefydlog.

**RhS y Cyngor -**

**3.3.7. Ar adeg pan fo pleidlais yn gyfartal, mae i'r Cadeirydd ail bleidlais i greu penderfyniad a hynny ond ar adeg pan mae wedi gwneud defnydd o'i bleidlais wreiddiol. Ni all Cadeirydd ddefnyddio'r ail bleidlais oni bai iddo bleidleisio yn wreiddiol ar y**

**3 q o'r Model**

**Gall cadeirydd cyfarfod fwrw pleidlais wreiddiol ar unrhyw fater y cynhelir pleidlais arno, a phan mae'r pleidleisio'n gyfartal gall ddefnyddio ei b/phleidlais fwrw os defnyddiodd bleidlais wreiddiol ai peidio.**

**Penderfynwyd derbyn argymhellion y Panel fel a ganlyn Argymhellion i'r Cyngor- Fod y Cyngor yn cyfarwyddo'r Rheolwr i ofyn i Un Llais Cymru i gadarnhau fod cymal 3.3.7 o Reolau Sefydlog y Cyngor yn dderbyniol ac yn gywir**

**Resolved to accept the Panels recommendation as follows - For the Council to direct the Manager to ask One Voice Wales to confirm that para 3.3.7 of the Council's Standing Orders is acceptable and correct.**

---

19-07-20 **11 Materion a Godwyd gan Aelodau / Matters Raised by Members Council**

**Cynghorydd Eddie Willcox**

19-07-21 **Gwasaneth Bws/ Bus Services**

Cais i gysylltu â Cyngor Gwynedd i weld a ellid newid y gwasanaethau 1F, 8.40 o Gaernarfon a'r 11.00 o Benygroes a weithredir gan Bysus Dilwyn i gynnwys Swyddfa'r Post a Pisgah yng Ngharmel gan fod y gwasanaeth presennol yn codi yn Coleg a Maes Hyfryd ac yna yn troi at Fron (ac yn ôl ar yr ail daith, mae hyn yn creu dau broblem

- 1) mae trigolion prif stryd Carmel yn cael eu hamddifadu o'r gwasanaeth
- 2) mae preswylwyr sy'n defnyddio'r gwasanaethau sy'n aros i fynd ar y bws yn Coleg yn sefyll wrth ymyl y wal adeilad ar gulhau'r ffordd yn agored i berygl o draffig

Request to contact Gwynedd Council to see if the 1F services, 8.40 from Caernarfon and the 11.00 from Penygroes operated by Dilwyn coaches could be altered to include the Post Office and Pisgah in Carmel as the present service picks up at the crossroads (Coleg) and Maes Hyfryd and then turns to Fron ( and in reverse on 2nd trip, this creates two problems

- 1) the residents of the main area of Carmel are deprived of the service
- 2) residents using the services waiting to board the bus at the crossroads are standing next to the wall of a building on a narrowing of the road exposed to danger from traffic.

**Penderfynwyd cefnogi y cais a gofyn i Cyngor Gwynedd ymestyn y daith trwy Pisgah .**  
**Resolved – to ask Gwynedd Council to extend the journey through to Pisgah**

19-07-22 **Sioe Gwn , Y Fron / Fron Dog Show**

Adroddwyd gan EW fod trefnwyr y Sioe Gwn wedi defnyddio y cae pel-droed i gynnal y sioe gwn yn ddiweddar. Adroddwyd fod dros 50 o gwn ar y cae. Roedd trigolion lleol wedi gwneud y sylw fod

cwn wedi ei wahardd o'r cae ond rto roedd sioe gwn wedi ei gynnal yno? Adroddwyd hefyd fod arwydd DIM CWN wedi ei dynnu o'r giat cyn y sioe

***Penderfynwyd gofyn i Gyfarwyddwyr Canolfan Y Fron - a ydynt yn gwybod pwy oedd wedi trefnu y digwyddiad a pam fod y trrefnwyr wedi defnyddio y cae heb ganiatad y Cyngor ?***  
***Resolved – to ask the directors of Canolfan Y Fron - who organised the event and on whose authority did the organisers use the football field without prior permission?***

#### 19-07-23 **Treuliau y Rheolwr / Managers Expenses**

Gofynnodd EW pam fod y Rheolwr yn talu treth incwm ar y treuliau?

Eglurodd y Rheolwr fod y treuliau yn incwm trethadwy dan rheolau HMRC. Roedd gyn wedi ei gadarnhau gan Archwilwyr Mewnol y Cyngor. W J Matthews.

***Penderfynwyd nodi'r drafodaeth***  
***Resolved – to note the discussion***

#### 19-07-24 **Asesiad Risg Ariannol a Trefniadau Gweinyddol / Financial & Administration Risk Assessment**

Gofynnodd EW os oedd gan y Cyngor Asesiad Risg Ariannol cyfredol?

Eglurodd y Rheolwr fod y Gwaith wedi ei raglennu gan y Pwyllgor Cyllid yn ystod 2019.

***Penderfynwyd cyfeirio y mater I'r Pwyllgor Cyllid***  
***Resolved – to refer the matter to the Finance Committee***

#### 19-07-25 **Gwasanaeth Swyddfa'r Post Symudol / Mobile Postal Service**

Adroddwyd fod sawl pentref cyfagos yn cael gwasanaeth Swyddfa'r Post symudol lle nad oes Swyddfa Bost parhaol yn bodoli?

Pawb yn cefnogi' syniad a chytunwyd i EW wneud ymholiadau gyda'r Swyddfa Bost

***Penderfynwyd cefnogi'r cynnig i gael Gwasanaeth Swyddfa'r Post symudol yn y gymuned ac i gynnwys y mater ar raglen nesaf y Cyngor***  
***Resolved – to support the motion of getting a mobile Postal Service in the community and to include the matter on the agenda in the next Councils meeting.***

#### **Cynghorydd Gerwyn Owen**

#### 19-07-26 **Gordyfiant Gwair yn y Pentrefi / Overgrown Grass in the Villages**

Cwyn am gyflwr salw lleoliad yn Y Groeslon yn arbennig-

Llwybr Cae Sarn – gwair uchel ar hyn yr afon.  
Gordyfiant ger maes chwarae yr ysgol  
Ffoes Brynrhos

Cyfrifoldeb y Cyngor hwn yw cadw hawl tramwyo Llwybr Cae Sarna r agor. Bydd y Rheolwr yn cystylltu gyda'r ymgymwerwr I sicrhau fod y Gwaith yn cael ei gyflawni.  
Cyfrifoldeb y Cyngor Sir yw'r safleoedd araill a nodwyd

*Penderfynwyd cysylltu gyda ymgwymerwr y Cyngor i gyflawni'r gwaith ar Llwybr Cae Sarn a gyda Cyngor Gwynedd ar gyfer gweddill y safleoedd .*

*Resolved – to contact the Council's contractor to carry out the work on the Cae Sarn Footpath and to refer the other sites to Gwynedd Council*

### **Cynghorydd Alan Patterson**

#### 19-07-27 **Lloches Bws Gardd Carmel / Community Garden Bus Shelter.**

Cynnig i gynnwys y mater ar Raglen waith y Cyngor

*Penderfynwyd cefnogi'r cynnig ac i gynnwys y Gwaith ar Raglen Waith 2019-20 y Cyngor .*

*Resolved – to support the proposal and to include the work on the Council's Works Programme for 2019-20.*

#### 19-07-28 **Gwasanaeth Biniau – Bagiau Melyn / Refuse Collection – Yellow Bags**

Cwyn am y bagiau melyn. Angen bocsys gan fod y bagiau melyn yn malu Pwysleiswyd and cwtn am y gwasanaeth casglu ydi hwn ond dull y casglu.

*Penderfynwyd dod ar fater i sylw Cyng. Dilwyn Lloyd .*

*Resolved – to bring the matter to the attention of Cllr.Dilwyn Lloyd.*

#### 19-07-29 **Arwydd Bws ger Penfforddalen – Bus Stop Sign**

Adroddwyd fod y polyn wedi plygu ac yn beryglus.

*Penderfynwyd dod ar fater i sylw Uned Cludiant Cyngor Gwynedd .*

*Resolved – to bring the matter to the attention of The Transport Unit Gwynedd Council*

#### 19-07-30 **Baw Cwn / Dog Mess.**

Sefyllfa yng Ngharmel wedi gwella yn ddiweddar ond yn parhau i fod yn broblem ym mhob pentref fel nodwyd yn yr ymgynghoriad

*Penderfynwyd derbyn y wybodaeth a chadw mewn ystyriaeth wrth lunio Rhaglen Waith Y Cyngor.*

*Resolved – to accept the information and to keep in mind when drafting the newxt Works Programme.*

---

#### 19-07-31 **12 Prosiect Cysylltu Comin a Chymuned Uwch Gwyrfai. / Uwch Gwyrfai Common and Community Links Project**

Trafodwyd y mater fel nodwyd yn y Rhaglen

*Penderfynwyd nodi'r wybodaeth.*

*Resolved to accept the information*

---

19-07-32 **13 Coleg Meirion Dwyfor Safle Glynllifon**

Gwahoddiad i enwebu cynrychiolydd o'r Cyngor i ddod yn aelod o Gyngor Coleg Meirion Dwyfor.

**Penderfynwyd enwebu Cyng. Eddie Willcox i gynrychioli'r Cyngor fel aelod o Gyngor Coleg Meirion Dwyfor. Bydd Cyng. Bryn Williams yn ei ddirprwyo**  
**Resolved – to nominate Cllr . Eddie Willcox to represent the Council to be a member of the College Council. Cllr Bryn Williams was nominated to deputise**

## **Materion Cynllunio / Planning Matters**

19-07-33 **14 Ceisiadau Cynllunio / Planning Applications - Gorffennaf 2019 / July 2019**

Manylion llawn y ceisiadau cynllunio

<https://diogel.gwynedd.llyw.cymru/swiftlg/apas/run/wphappcriteria.display?langid=2>

Full details of the Planning Applications

<https://diogel.gwynedd.llyw.cymru/swiftlg/apas/run/wphappcriteria.display?langid=1>

Cais Rhif / Application Number - **C19/0550/17LL**

Cyfeiriad / Address - **1 Hen Siop, Y Fron. LL54 7RE**

Bwriad / Proposal - **Codi stabl **Erection of stables.****

**Penderfyniad y Cyngor – gwrthod – ar y sail 1) cwestiwn ynglŷn cywirdeb y cynllun 2) dim mesuriadau; 3) cwestiwn os ydi to fflat yn addas, 4) ansawdd y cynlluniau**

**Resolved – refuse – on the basis 1) question regarding accuracy of the plans as presented, orientation etc 2) no measurements; 3) question regarding suitability of a fflat roof on the building , 4) quality of the plans as presented.**

## **Materion Ariannol / Financial Matters**

19-07-34 **15 Derbyniadau Wedi ei Dderbyn Mehefin 2019 – Income Received June 2019**

<b>Manylion / Details</b>	<b>Cyfanswm</b>
Ffioedd Claddu / Burial Fees	£462.00

**Penderfynwyd derbyn y wybodaeth .**

**Resolved to accept the information**

19-07-35 **16 Taliadau sydd angen eu hawdurdodi gan y Cyngor - Payments to be approved**

<b>Manylion / Details</b>	<b>Swm heb TAW Amount excluding VAT</b>	<b>Cyfanswm y Taliad- Total Payment</b>	<b>Rhif Siec/ Cheque Number</b>
Cyflog y Rheolwr – Gorffennaf 2019 – <a href="#">Managers salary July 2019</a>	£566.01		Uniongyrchol/Direct
HMRC-Treth Incwm Gorffennaf 2019 – <a href="#">Income Tax July 2019</a>	£148.20		Uniongyrchol/Direct
HMRC – Yswiriant Gwladol y Rheolwr Gorff/ July 2019	£2.76		Uniongyrchol/Direct
NEST – Pensiwn y Rheolwr – Cyfraniad y Cyngor Gorff/ July 2019	£74.10		Uniongyrchol/Direct

NEST – Pensiwn y Rheolwr – Cyfraniad y Cyngor Ebrill 2018 hyd at Mai 2019 / Contribution to the Managers Pension Fund from April 2018 to May 2019	£1,001.37		Uniongyrchol/Direct
Lwfans y Rheolwr – Gorff 2019 – <a href="#">Managers Allowance July 2019</a>	£24.00		Uniongyrchol/Direct
Ann Llwyd – Cyfiethu Gorffennaf / <a href="#">Translation Costs July 2019</a>	£100.00	£100.00	101904
Dell – Cyfrifiadur a Meddalwedd / Computer & Software	£916.53	£1,082.53	101905
Cyngor Gwynedd – Cyfraniad at Toiled Y Marine 2019-20	£4,000.00	£4,000.00	101906
Viking Direct – Deunyddiau Swyddfa / Office Supplies	£65.82	£78.98	101907
Clerks & Council Direct – Tanysgrifiad / Subscription	£60.00	£60.00	101908

***Penderfynwyd derbyn y wybodaeth a rhoddwyd yr awdurdod i'r Rheolwr i ryddhau'r oll daliadau.  
Resolved to accept the information and to authorise the Manager to release all the payments***

19-07-36 **17 Materion i'w Codi gan aelodau i gyfarfod nesaf o'r Cyngor llawn 16 Medi 2019 / matters to be raised by Members for the Next Meeting 16 September 2019**

Cyng. Bryn Williams – Llwybr ???

Cyng. Gerwyn Owen , Y Groeslon – Grantiau Jones Brothers

Cyng. Alan Patterson , Carmel – Parcio Tir Meddal ger mynedfa Cae Sarn

Cyng. David C Davies , Y Groeslon – Cronfa Diffibriliwr

19-07-37 **18 Dyddiadau Cyfarfod Nesaf / Dates of Next Meetings**

Cyfarfod Arbennig/ Special Council Meeting – **Cyngor Llawn – Adroddiad Ymgysylltu / Full Council – Final Report Consulting With The Community**

Dyddiad / Date - Nos Fercher 28 Awst 2019 / [Wednesday 28 August 2019](#)

Amser / Time - 7.30 yr hwyr

Lleoliad / Venue – i'w gadarnhau / to be confirmed

Cyfarfod / Meeting – **Cyngor Llawn Mis Medi / September Full Council**

Dyddiad / Date - Dydd Llun 16 Medi 2019 / [Monday 16 September 2019](#)

Amser / Time - 7.30 yr hwyr

Lleoliad / Venue Neuadd Pentref Carmel

Cyfarfod / Meeting – **Pwyllgor Mynwentydd ac Eiddo - Cemeteries & Property Committee**

Dyddiad / Date – Nos Fercher 25 Medi 2019 / [Wednesday 25 September 2019](#)

Amser / Time 7 yh / 7 pm

Lleoliad / Venue – Neuadd Pentref Y Groeslon

Cyfarfod / Meeting – **Panel Rheolau Sefydlog – Standing Orders Panel**

Dyddiad / Date – Nos Fercher 11 Medi 2019 / [Wednesday 11 September 2019](#)

Amser / Time 7 yh / 7 pm

Lleoliad / Venue – Neuadd Pentref Y Carmel

**Daeth y cyfarfod i ben am 9.35 yr hwyr / The meeting ended 9:35 pm**

<b>Cafwyd y Cofnodion yn rhai cywir – The Minutes were recorded as accurate</b>	
<b>Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor</b>  <b>Signed by the Chairman</b>	
<b>Dyddiad - Date</b>	